

Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2022

Hysbysiad Preifatrwydd Cyflogeion

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn dweud wrthy'ch sut mae Swyddfa Archwilio Cymru yn prosesu gwybodaeth amdanoch chi fel aelod presennol neu gyn-aelod o staff. Mae staff yn golygu unrhyw unigolyn sy'n gweithio i Swyddfa Archwilio Cymru, neu fel rhan ohoni, gan gynnwys cyflogeion, aelodau bwrdd, gweithwyr (gan gynnwys staff asiantaeth, staff achlysurol a staff dan contract), gwirfoddolwyr, hyfforddeion a'r rhai sy'n cyflawni profiad gwaith.

Pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud

Mae gwaith Archwilydd Cyffredinol Cymru yn archwilio sut mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus, ac mae Swyddfa Archwilio Cymru yn darparu'r staff a'r adnoddau i'w alluogi i gyflawni ei waith. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ond yn nod masnach ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru, ac yn hunaniaeth ymbarél ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Swyddfa Archwilio Cymru yw cyflogwr y staff. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar [wefan](#) Archwilio Cymru.

Y cyfreithiau perthnasol

Rydym yn prosesu eich data personol yn unol â deddfwriaeth diogelu data, gan gynnwys Deddf Diogelu Data 2018 (DPA) a Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (GDPR). Y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu yw darparu cyfleusterau ar gyfer gwaith ACC o dan adran 21 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 a pherfformiad y contract cyflogaeth rhwng Swyddfa Archwilio Cymru a chi fel ei gyflogai.

Yr hyn y byddwn yn ei wneud gyda'ch gwybodaeth

Byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth lle bo hynny'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni eich contract gyda Swyddfa Archwilio Cymru (SAC o hyn ymlaen) neu ar gyfer cydymffurfio ag unrhyw rwymedigaethau cyfreithiol, sy'n gymwys i SAC (fel eich cyflogwr neu fel arall sy'n berthnasol).

Mae'r dibenion hyn yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i):

- gweinyddu eich cyflogaeth neu berthynas waith arall â SAC, gan gynnwys tâl, trethiant, treuliau a phensiwn;

- rheoli neu weithgaredd arall mewn perthynas â'ch presenoldeb, gwaith, patrymau gwaith a chofnodi amser, perfformiad, datblygiad personol neu gynnydd;
- datblygu strategaethau, polisïau, gweithdrefnau ac arferion gwaith Swyddfa Archwilio Cymru, e.e. llywio ffyrdd o weithio a gweithleoedd yn y dyfodol;
- gweinyddu ffurflenni annibyniaeth er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â Safon Foesebol FRC;
- cyflenwi hyfforddiant staff, gan gynnwys lle bo angen ar gyfer cofrestru hyfforddiant proffesiynol;
- cynhyrchu cyfeiriadur ffôn mewnol pan ellir cofnodi rhifau ffôn personol staff, e.e. ar gyfer parhad busnes a chynllunio trychinebau;
- gweinyddu a, lle bo angen, monitro mynediad at systemau gwybodaeth a'r defnydd ohonynt;
- swyddogaethau gweinyddol arferol megis mynediad i adeiladau (a fydd yn cynnwys defnyddio ffotograff unigolyn fel y mae'n ymddangos ar ei gerdyn staff);
- defnyddio ffotograffau ar dudalennau gwe mewnol Swyddfa Archwilio Cymru (HUB), e-bost, systemau TG, a meddalwedd fideo-gynadledda;
- gweithredu system teledu cylch cyfyng, yn unol â Pholisi Teledu Cylch Cyfyng Swyddfa Archwilio Cymru;
- paru data, er mwyn atal a chanfod twyll;
- monitro cydraddoldeb; a
- chofnodi digwyddiadau, a dibenion hyfforddi.

Byddwn yn cadw eich data personol am y cyfnodau a nodir yn ein Polisi Rheoli Dogfennau a Chofnodion, a byddwn yn cadw eich data'n ddiogel yn unol â'n Polisi Diogelwch Gwybodaeth.

Pam rydym yn rhannu eich gwybodaeth

Gall eich data personol gael ei rannu'n fewnol yn unol â'r egwyddorion diogelu data lle mae sail gyfreithiol dros brosesu hyn.

Byddwn yn rhannu eich gwybodaeth gyda sefydliadau allanol at y dibenion canlynol:

- gweinyddu eich cyflogaeth neu berthynas waith arall â SAC, gan gynnwys tâl, trethiant, treuliau a phensiwn;

- gweinyddu cofrestrriad a/neu hyfforddiant gyda chyrrff proffesiynol neu ryngweithio angenrheidiol eraill â chyflenwyr hyfforddiant proffesiynol neu gyrff hyfforddi proffesiynol;
- cynllunio archwilio neu adnoddau corfforaethol lle mae angen datgelu er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â Safon Foesegol y Pwyllgor;
- paru data yn y Fenter Twyll Genedlaethol, ar gyfer atal a chanfod twyll;
- cofrestru a gweinyddu porth buddion cyflogeion (gall staff optio allan).

Mae rhagor o wybodaeth am gyfranogiad SAC yn yr ymarferion paru data a gynhaliwyd gan y Fenter Twyll Genedlaethol a'r hysbysiadau prosesu teg perthnasol ar gael ar wefan, Archwilio Cymru, a'r [hwb](#).

Efallai y byddwn yn rhannu rhywfaint o wybodaeth bersonol gyda sefydliadau allanol at ddibenion cynlluniau mentora neu hyfforddi, cyfleoedd datblygu, cynadleddau neu ddigwyddiadau.

Fel arall, byddwn ond yn rhannu eich gwybodaeth gyda'ch caniatâd, lle mae rhwymedigaeth gyfreithiol i ni wneud hynny, neu at ddibenion iechyd a diogelwch.

Gwybodaeth bersonol categori arbennig (sensitif)

Gallwn brosesu gwybodaeth bersonol sensitif sy'n ymwneud ag iechyd, salwch a lles at ddibenion cyflogaeth a/neu iechyd a diogelwch. Gallwn brosesu gwybodaeth sensitif am gyflyrau neu anabledau iechyd corfforol neu feddyliol er mwyn:

- 1) monitro absenoldeb salwch a gwneud penderfyniadau ynghylch addasrwydd i weithio
- 2) hwyluso penderfyniadau sy'n ymwneud â phresenoldeb mewn swyddfeydd/ gweithleoedd eraill
- 3) gwneud addasiadau rhesymol

Rydym yn prosesu gwybodaeth bersonol sensitif arall megis tarddiad hiliol neu ethnig, cred grefyddol, rhywioldeb, anabled a nodweddion gwarchoddedig eraill i fonitro cydymffurfiaeth â deddfwriaeth cydraddoldeb (monitro ystadegol yw hyn, ni fydd modd adnabod unigolion o'r adroddiadau). Pan gaiff data personol categori arbennig ei brosesu, mae hyn yn unol â'n Polisi ar gyfer Prosesu Categorïau Data Arbennig, gyda sail gyfreithiol ychwanegol ar gyfer y prosesu hwnnw'n cael ei fodloni. Bydd y sail berthnasol fel arfer ar gyfer cyflogaeth, nawdd cymdeithasol a gwarchodaeth gymdeithasol (wedi'i hawdurdodi yn ôl y gyfraith).

Mewn amgylchiadau cyfyngedig, gall SAC ddatgelu eich data personol sensitif i drydydd partïon, lle mae angen neu rwymedigaeth ddilys neu mewn

amgylchiadau eithriadol os oes angen, diogelu eich buddiannau hanfodol (h.y. sefyllfaoedd sy'n bygwth bywyd), yn ystod neu ar ôl eich cyfnod cyflogaeth.

Cadw eich gwybodaeth yn gyfredol

Mae'n bwysig bod y wybodaeth sydd gennym amdanoch yn gyfredol. Os bydd eich manylion personol yn newid neu os ydynt yn anghywir ar hyn o bryd yna mae'n bwysig eich bod yn rhoi gwybod i ni drwy ddiweddarau eich gwybodaeth am y system Hunanwasanaeth Cyflogeion (ESS) neu drwy gysylltu â'ch rheolwr llinell. Gallwch gofnodi unrhyw ofynion arbennig neu geisiadau am addasiadau rhesymol yn y system ESS.

Eich Hawliau

O dan gyfraith diogelu data mae gennych hawliau i ofyn am gopi o'r wybodaeth bersonol gyfredol a gedwir amdanoch ac i wrthwynebu prosesu data sy'n achosi difrod a gofid diwarant a sylweddol.

I gael copi o'r wybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch neu i drafod unrhyw wrthwynebiadau neu bryderon, ysgrifennwch at Martin Peters, Swyddog Diogelu Data, Archwilio Cymru, 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ, neu e-bostiwch: swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru Gallwch hefyd gysylltu â'n Swyddog Diogelu Data yn y cyfeiriad hwn.

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO)

Os ydych am gael rhagor o wybodaeth am eich hawliau o dan gyfraith diogelu data neu os hoffech gwyno am sut rydym yn ymdrin â'ch data personol, gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth ar: Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF, neu drwy e-bost ar casework@ico.gsi.gov.uk neu dros y ffôn 01625 545745.